------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5**

Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Rhagfyr 2022

Amser: 08.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Manon George**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddTai@senedd.cymru

**Rhag-gyfarfod (08.45 - 09.00)**

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(09.00)

**2 Digartrefedd - sesiwn dystiolaeth 5 - y Gweinidog Newid Hinsawdd**

(09.00 - 10.15) (Tudalennau 1 - 31)

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Amelia John, Dirprwy Gyfarwyddwr, Adran Polisi Tai, Llywodraeth Cymru

Sarah Rhodes, Pennaeth atal Digartrefedd, Llywodraeth Cymru

Emma Williams, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru

**3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod, ac o'r cyfarfod a gaiff ei gynnal ar 14 Rhagfyr 2022**

**Egwyl (10.15 - 10.30)**

**4 Digartrefedd - trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2 a thrafod y materion allweddol.**

(10.30 - 11.30)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 5 Trafod yr adroddiad drafft ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio).

(11.30 - 11.35) (Tudalennau 32 - 42)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Papur y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd – Tachwedd 2022

**Cyd-destun**

1. Gan adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan ddeddfwriaeth 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd ym mis Hydref 2019. Ar yr un pryd, comisiynwyd Grŵp Gweithredu arbenigol ar Ddigartrefedd i fynd i'r afael â nifer o gwestiynau allweddol er mwyn helpu i gyflawni ein nod tymor hwy o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Aeth y Grŵp ati i ymgysylltu'n eang â'r rhai a oedd â phrofiad uniongyrchol o ddigartrefedd a rhanddeiliaid allweddol eraill, er mwyn llunio tri adroddiad sy'n cynnwys nifer o argymhellion. Pan gyhoeddwyd ail adroddiad y Grŵp, a'r un mwyaf eang ei gwmpas, roedd y pandemig yn dechrau.

2. Ar ddechrau'r cyfyngiadau symud cyntaf ym mis Mawrth 2020, rhoddodd Llywodraeth Cymru ymateb brys i ddigartrefedd ar waith ar unwaith. Fel rhan o hyn roedd cyllid ychwanegol sylweddol ar gael, ynghyd â chanllawiau statudol ac anstatudol i sicrhau nad oedd neb heb lety, ynghyd â'r cymorth yr oedd ei angen arnynt i aros yn ddiogel. Ers hynny, parhawyd i gymryd camau cynhwysol i sicrhau nad oes neb yn cael ei anwybyddu, a hyd yma mae awdurdodau lleol a'u partneriaid wedi cefnogi dros 26,400 o bobl drwy roi llety a chymorth dros dro ers mis Ebrill 2020. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch unwaith eto i bawb sy'n gweithio yn y sector digartrefedd a chymorth tai y mae eu hymroddiad, eu gwaith caled a'u hymrwymiad i gefnogi pobl ledled Cymru wedi trawsnewid bywydau ac yn parhau i wneud hynny.

3. Mae'r pandemig wedi ein galluogi i gael darlun llawer mwy cywir o raddau gwirioneddol digartrefedd ledled Cymru. Er bod yr ymateb i'r argyfwng wedi helpu llawer o unigolion i ymgysylltu â gwasanaethau am y tro cyntaf, mae wedi dangos lefel yr angen cudd nad yw'r system tai, iechyd a chymorth ehangach yn ei ddiwallu fel arfer a'r angen i ymateb i'r rhain yn y tymor hwy.

4. Wrth inni ddechrau edrych y tu hwnt i'r pandemig, mae ein Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021, yn nodi'r camau cyntaf sy'n cael eu cymryd i roi diwedd ar ddigartrefedd ac mae wedi'i lywio gan argymhellion y Grŵp Gweithredu arbenigol ar Ddigartrefedd a gwersi a ddysgwyd drwy gydol y pandemig.

5. Mae'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu dull hirdymor Llywodraeth Cymru o roi diwedd ar ddigartrefedd. Mae hyn yn golygu, yng Nghymru, ein bod yn awyddus i sicrhau bod digartrefedd yn beth prin a byrhoedlog na fydd yn digwydd eto: rhywbeth anghyffredin (a gaiff ei atal yn y rhan fwyaf o achosion) a, phan fydd yn digwydd, ei fod yn fyrhoedlog a bod yr unigolyn neu'r aelwyd yn cael ei helpu i gael cartref sefydlog eto yn gyflym ac yn effeithiol er mwyn sicrhau nad yw'n mynd yn ddigartref eto, gan alluogi aelwydydd i lwyddo nid methu ac aros yn eu cartref eu hunain. Er mwyn i hyn ddigwydd, rydym yn ymrwymedig i symud llawer mwy o'n hegni a'n hadnoddau tuag at atal digartrefedd rhag digwydd yn y lle cyntaf. Rydym hefyd yn ymrwymedig i symud i ddull ailgartrefu cyflym, sy'n golygu

cynyddu nifer y tai sydd ar gael, er mwyn inni allu helpu pobl mewn argyfwng i gael eu cartrefu mewn llety addas hirdymor yn gyflym a ffynnu yno.

6. Mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd a gweithredu ar argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol a chanolbwyntio ar atal digartrefedd ac ailgartrefu cyflym yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru ac mae'n ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu.

**Heriau Allweddol**

7. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar atal digartrefedd ac, yn y tymor canolig i'r hirdymor, ar symud i ddull ailgartrefu cyflym pan na ellir atal digartrefedd. Fodd bynnag, mae effaith barhaus y pandemig, yr argyfwng costau byw, fforddiadwyedd y Sector Rhentu Preifat a'r argyfwng dyngarol sydd wedi'i achosi gan y rhyfel yn Wcráin, oll wedi rhoi cryn bwysau ar wasanaethau tai a phartneriaid ehangach, ac wedi ein gorfodi i ddibynnu mwy ar lety dros dro yn y byrdymor.

8. Am y rhesymau hyn, mae atal digartrefedd wedi mynd yn fwyfwy heriol. Mae'r argyfwng costau byw a'r effaith ganlyniadol ar gyllidebau aelwydydd yn golygu na all llawer o bobl dalu eu rhent na biliau domestig eraill a'u bod yn wynebu risg o fynd i ôl-ddyledion rhent ac, o bosibl, o gael eu troi allan. Mae hyn yn gorfodi mwy o unigolion i geisio cymorth atal digartrefedd gan dimau digartrefedd awdurdodau lleol.

9. Mae fforddiadwyedd y Sector Rhentu Preifat i bobl sy'n cael budd-daliadau tai bod amser wedi bod yn anodd ac mae'n mynd yn fwyfwy heriol. Gan fod cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn cael eu pennu gan Lywodraeth y DU, sydd wedi'u rhewi ers mis Ebrill 2020 (yn seiliedig ar y 30ain ganradd o renti ym mis Medi 2019), mae bwlch rhwng cyfraddau Lwfans Tai Lleol a'r rhenti sy'n cael eu codi ar hyn o bryd yn sylweddol. Dengys data a ddelir gan Swyddogion Rhenti Cymru ar gyfer y flwyddyn hyd at ddiwedd mis Medi fod diffyg o ychydig o dan 9% (8.99%) ar sail Cymru gyfan. Fodd bynnag, mae hyn yn cuddio amrywiadau rhanbarthol sylweddol, gyda'r gwahaniaethau mwyaf yn cael eu cofnodi yng Nghasnewydd a Threfynwy, sef 20.20% a 17.55% yn y drefn honno.

10. O ganlyniad i'r argyfwng dyngarol sydd wedi'i achosi gan y rhyfel yn Wcráin, mae 6,097 o Wcreiniaid wedi cyrraedd Cymru hyd at 22 Tachwedd, o dan y cynllun Uwch-Noddwyr (2,951 o bobl) a'r cynllun Cartrefi i Wcráin (3,146). Er ei bod yn bwysig iawn bod Cymru yn ymateb fel cenedl noddfa, mae hyn wedi rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar y system tai a digartrefedd yng Nghymru, am fod angen darparu llety cychwynnol a llety camu ymlaen o dan y Cynllun Uwch-Noddwyr; llety dros dro a llety camau ymlaen pan fydd trefniadau noddwyr yn methu o dan y cynllun Cartrefi i Wcráin; a phan fydd trefniadau Noddi gan Deuluoedd wedi methu.

11. Mae hyn ar ben yr ymateb parhaus i argyfwng Affganistan, ymatebion eraill i ffoaduriaid a phenderfyniad y Swyddfa Gartref i ymestyn y rhaglen gwasgaru ceiswyr lloches i gynnwys pob rhan o Gymru, sydd oll wedi rhoi pwysau ychwanegol ar lety dros dro a llety camu ymlaen.

12. Ers mis Awst 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi casglu gwybodaeth reoli bob mis gan awdurdodau lleol am nifer y bobl sy'n cysgu allan a nifer y bobl sydd mewn llety dros dro. Dengys y data diweddaraf a gyhoeddwyd fod 8,545 o bobl mewn Llety Dros Dro ar hyn o bryd ledled Cymru (ar ddiwedd mis Awst 2022), gan gynnwys 2,515 o blant dibynnol. Er y dylid ystyried hyn yng nghyd-destun y ffaith bod mwy na 26,400 o bobl wedi cael cymorth yn ystod y cyfnod a bod y pwysau ar Lety Dros Dro yn parhau i fod yn sylweddol. Mae nifer y bobl ddigartref yn parhau'n gyson ar tua 1,400 y mis gyda dim ond tua 500-700 o bobl yn cael eu symud i lety hirdymor addas.

13. Rwy'n cydnabod y pwysau ar wasanaethau tai a digartrefedd ac mae hyn yn destun pryder imi o hyd a dyna pam rwyf wedi rhoi amrywiaeth o fesurau ar waith a amlinellir yn y papur hwn.

**Rhoi'r Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd ar Waith**

14. Er gwaethaf y cyd-destun mwyfwy heriol, mae cynnydd wedi'i wneud o ran datblygu ein nod hirdymor o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Mae'r Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd lefel uchel yn nodi nifer o gamau a fydd yn cael eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf. Cyflwynir adroddiad ar y cynllun yn gynnar yn y flwyddyn nesaf, a fydd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu unigol, yn ogystal â chamau gweithredu newydd neu wedi'u diweddaru. Yn y cynllun, mae'r camau gweithredu wedi'u rhannu'n dri chategori cyffredinol, sef: trawsnewid y system ddigartrefedd, atal a chamau gweithredu ategol cyffredinol.

*Trawsnewid y system ddigartrefedd*

15. Newidiodd y penderfyniad i fabwysiadu dull lle nad oes ‘neb yn cael ei adael allan’ yn ystod y pandemig, y dull o ymdrin â darpariaeth digartrefedd yn llwyr, gan sicrhau nad oedd neb yn cael ei orfodi i gysgu allan yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir na fydd yn dychwelyd i'r dull o ymdrin â digartrefedd cyn y pandemig ac, felly, mae camau gweithredu allweddol yn ein cynllun yn cynnwys cefnogi'r ymateb parhaus i'r argyfwng; datblygu a chyflwyno cynlluniau pontio ailgartrefu cyflym; cynyddu'r cyflenwad tai; diwygiadau deddfwriaethol yn y tymor hwy.

16. Fel rhan o becyn gwerth mwy na £197m i wasanaethau cymorth tai a digartrefedd eleni yn unig, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £10m i awdurdodau lleol er mwyn helpu i dalu am gostau llety dros dro a sicrhau na fyddant yn dychwelyd i'r system ddigartrefedd flaenorol. Rydym hefyd wedi cyflwyno trefniadau cyfreithiol trosiannol yn ddiweddar er mwyn parhau â'r dull lle nad oes ‘neb yn cael ei adael allan’, fel rhan o'r broses tymor hwy o newid o system sy'n seiliedig ar angen blaenoriaethol i system sy'n canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu cyflym. Diwygiodd Rheoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022 Ddeddf Tai (Cymru) 2014, sy'n golygu bod unigolyn sy'n cysgu ar y stryd ac unigolyn y gellid disgwyl yn rhesymol iddo fyw gydag ef, yn cael ei ystyried yn unigolyn ag angen blaenoriaethol am gymorth a llety. Er mwyn helpu

awdurdodau lleol i roi'r trefniadau trosiannol hyn ar waith, gwnaethom hefyd gyhoeddi atodiad i'r Cod Canllawiau.

17. Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y trefniadau cyfreithiol trosiannol, gwnaethom hefyd ymgynghori ar ddiwygiadau posibl i'r gofynion o ran addasrwydd yn y ddeddfwriaeth, mewn perthynas â gwestai a llety gwely a brecwast. Tynnodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad sylw at natur gymhleth y mater hwn o ystyried y pwysau cynyddol ar awdurdodau lleol ac mae gwaith a gweithgarwch ymgysylltu pellach â phartneriaid yn mynd rhagddynt er mwyn nodi'r mesurau trosiannol mwyaf priodol yn y maes hwn.

18. Er ein bod wedi parhau i helpu awdurdodau lleol i ymateb i'r galw mawr am lety dros dro, rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda nhw er mwyn eu helpu i newid i ddull ailgartrefu cyflym yn y tymor hwy. Ym mis Chwefror a mis Mawrth eleni, cynhaliodd fy swyddogion gyfres o weminarau gan ddod ag awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a phartneriaid ehangach at ei gilydd er mwyn helpu i ddatblygu cynlluniau ailgartrefu cyflym. Gwnaethom hefyd gyhoeddi canllawiau ar ailgartrefu cyflym ym mis Hydref 2021 yn ogystal â chanllawiau cyfathrebu ar gyfer Ailgartrefu Cyflym ym mis Awst 2022, y mae pob un ohonynt wedi'u datblygu gyda phartneriaid, er mwyn helpu i ddatblygu cynlluniau pontio awdurdodau lleol ymhellach.

19. Wrth newid i ddull ailgartrefu cyflym a lleihau ein dibyniaeth ar lety dros dro, mae cynyddu'r cyflenwad o gartrefi parhaol addas yn hanfodol. Drwy ein Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i ddarparu 20,000 o gartrefi carbon isel i'w rhentu yn y sector cymdeithasol. Dengys ein hamcangyfrifon o'r angen am dai, ar sail amcangyfrifon canolog, fod angen 7,400 o gartrefi ychwanegol y flwyddyn tan 2023/24; mae hyn yn cynnwys yr angen am 3,500 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol bob blwyddyn. Mae ein hymrwymiad yn mynd ymhellach na hyn ac, er mwyn cefnogi hyn, rydym wedi pennu'r lefelau uchaf erioed o gyllid Grant Tai Cymdeithasol drwy'r gyllideb yn y flwyddyn bresennol (2022-23) gyda £300m a dyraniadau dangosol yn y gyllideb ddrafft o £330m yn 2023-24 a £325m yn 2024-25. Mae ein dull newydd o gynnal Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, hefyd yn darparu cymorth hollbwysig i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu asesu'r angen am dai lleol ledled Cymru.

20. Rydym hefyd yn ymrwymedig i wella mynediad at dai fforddiadwy tymor hwy yn y sector rhentu preifat. Fel rhan o hyn, rydym yn buddsoddi £30m dros 5 mlynedd yng Nghynllun Prydlesu Cymru. Bwriedir i'r Cynllun gefnogi unigolion ac aelwydydd sy'n ddigartref neu sy'n wynebu'r risg o fod yn ddigartref. Bydd tenantiaid sy'n rhan o'r Cynllun yn cael budd o ddiogelwch deiliadaeth tymor hwy (rhwng 5 ac 20 mlynedd) ar renti sydd wedi'u cyfyngu i gyfraddau Lwfans Tai Lleol. Mae cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y byddant yn cael yr un lefel o gymorth ag y byddent yn ei ddisgwyl mewn tai cymdeithasol.

21. Yn ogystal â chynyddu'r cyflenwad o gartrefi parhaol yn y tymor hwy, rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnig opsiynau o ran llety interim o ansawdd da y gall awdurdodau lleol symud pobl ymlaen iddynt o lety dros dro. Er mwyn cefnogi hyn, darparodd Llywodraeth Cymru £65m arall ym mis Gorffennaf 2022 ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro, er mwyn creu mwy na 1,000 o gartrefi

ychwanegol dros y 18 mis nesaf i helpu pobl i symud ymlaen o lety dros dro. Mae'r cyllid hwn yn helpu awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i greu llety o ansawdd da sydd ar gael i bawb sydd angen tai. Mae amrywiaeth o gynlluniau yn cael eu cyflwyno'n gyflym er mwyn creu capasiti llety drwy sicrhau bod eiddo segur na fyddai fel arall yn cael ei ailosod yn cael ei defnyddio unwaith eto, ailfodelu llety presennol, addasu adeiladau yn llety o ansawdd da, defnyddio dulliau adeiladu modern a defnyddio llety modiwlar fel math tymor canolig o dai ar rai safleoedd wrth iddynt gael eu datblygu. Bydd bron hanner y rhain yn gartrefi hirdymor neu barhaol a bydd y lleill yn gartrefi o ansawdd da sy'n addas i'w defnyddio gan unigolion a theuluoedd am sawl blwyddyn, gan alluogi pobl i ymsefydlu mewn cymunedau a bwrw gwreiddiau.

22. Ar yr un pryd ag ymateb i'r heriau uniongyrchol sy'n wynebu'r sector tai a digartrefedd, rydym hefyd yn bwrw ymlaen â diwygiadau deddfwriaethol yn y tymor hwy. Sefydlwyd panel arbenigol annibynnol, a gadeirir gan yr Athro Suzanne Fitzpatrick, er mwyn rhoi argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol a bydd yn cyflwyno ei adroddiad o fewn 12 mis. Bwriedir cynnal ymarfer ymgysylltu cynhwysfawr hefyd, a fydd yn cynnwys amrywiaeth eang o grwpiau rhanddeiliaid, grwpiau cymunedol a grwpiau defnyddwyr gwasanaethau, er mwyn sicrhau'r mewnbwn ehangaf posibl i'r broses o ddatblygu polisi a deddfwriaeth. Bwriedir cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar Bapur Gwyn y flwyddyn nesaf.

23. Mae sicrhau gwasanaethau cymorth tai cadarn sy'n helpu pobl i gynnal tenantiaethau ac osgoi digartrefedd, a darpariaeth gofleidiol i gefnogi'r rhai sydd wedi wynebu digartrefedd, yn hanfodol. Er mwyn cydnabod hyn, cynyddodd Llywodraeth Cymru y Grant Cymorth Tai £40m yn 2020/21 i £166.7m ac mae wedi darparu'r cynnydd sylweddol hwn unwaith eto yn y flwyddyn ariannol hon. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r sector i dreialu fframwaith canlyniadau Grant Cymorth Tai newydd y flwyddyn ariannol hon, a gaiff ei gyflwyno ledled Cymru yn y flwyddyn ariannol nesaf, gan sicrhau ein bod yn cael tystiolaeth lawn o'r effaith y mae'r grant hwn yn ei chael ar ganlyniadau unigol.

*Atal*

24. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, er mwyn inni roi diwedd ar ddigartrefedd, ei bod yn hollbwysig ei atal yn y lle cyntaf a sicrhau ei fod yn beth prin. Fel y nodir yn y cynllun gweithredu, nid oes a wnelo atal â thai yn unig; mae a wnelo â sicrhau bod gwasanaethau eraill yn ymyrryd i gefnogi pobl ar gam cynnar er mwyn sicrhau na fyddant byth yn mynd yn ddigartref.

25. Fel rhan o'n gwaith ymyrryd yn gynnar a'n gwaith atal wedi'i dargedu, rydym yn parhau i ddarparu £3.7m o'r gyllideb Atal Digartrefedd i'r Grant Cymorth Ieuenctid. Mae'r cyllid hwn yn cefnogi'r gwaith parhaus o ddatblygu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid er mwyn helpu i nodi pobl ifanc sy'n wynebu risg o fynd yn ddigartref. Mae hyn yn cynnwys nodi a chefnogi'r rhai mewn ysgolion yn ogystal â'r rhai a all fod wedi ymddieithrio. Yn dilyn gweithgarwch ymgysylltu helaeth â phartneriaid, yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn wedi'i diweddaru o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, sy'n ymgorffori atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc yn llawn yn y fframwaith. Rydym hefyd yn parhau i

ariannu Cydgysylltydd Digartrefedd Ieuenctid ym mhob ardal awdurdod lleol, wedi'i leoli yn y gwasanaeth ieuenctid, sy'n gweithio gyda'i gydweithwyr ym maes tai a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n wynebu risg o fynd yn ddigartref yn cael eu cefnogi. Gall Gwasanaethau Ieuenctid sicrhau parhad cymorth am eu bod yn gweithio gyda phobl ifanc 11-25 oed.

26. Rydym hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr Adran Iechyd yn Llywodraeth Cymru ac rydym yn ymrwymedig i gefnogi unigolion ag anghenion cymhleth – unigolion sydd yn aml yn symud rhwng gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau tai. Ar hyn o bryd, rydym yn buddsoddi bron £64m yn ein hagenda camddefnyddio sylweddau, y mae mwy na £36m o'r swm hwnnw yn mynd i'n Byrddau Cynllunio Ardal drwy ein Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau. Cynyddodd y dyraniadau hyn £11m o £25m i £36m yn 2022-23 fel rhan o'r Gyllideb. Mae hyn yn cynnwys £3m i gefnogi Therapi Amnewid Opioidau amgen parhaus (Buvidal) ar gyfer cyn-ddefnyddwyr heroin sy'n wynebu risg. At hynny, gwnaethom ddyblu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth i bobl ag anghenion tai ac anghenion camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl cymhleth i £2m, a bydd y cyllid hwn yn cynyddu ymhellach i £4.5m erbyn 2025/25.

27. Mae is-grŵp iechyd a digartrefedd bellach wedi'i sefydlu hefyd o dan y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd a chyfarfu am y tro cyntaf ym mis Tachwedd. Mae'n dod ag Arweinwyr Iechyd y Cyhoedd o bob un o'r Byrddau Iechyd Prifysgol (BIPau) yng Nghymru at ei gilydd, yn ogystal ag uwch-swyddogion Iechyd a Thai yn Llywodraeth Cymru. Ategir eu gwaith gan gyfoeth o dystiolaeth sy'n cadarnhau bod canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol pobl sy'n ddigartrefedd yn llawer gwaeth na chanlyniadau cyfatebol y boblogaeth yn gyffredinol. Bydd y grŵp yn ystyried y modelau gweithio integredig ym mhob awdurdod lleol a BIP, gan gynnwys y gwasanaethau amlddisgyblaethol yng Nghaerdydd ac ardal Rhondda Cynon Taf. Bydd y grŵp hefyd yn blaenoriaethu gwaith sy'n canolbwyntio ar anghenion cymhleth, heriau sy'n ymwneud ag iechyd i bobl sy'n byw ym mhob math o lety dros dro a'r ffordd y gall gwelliannau i iechyd helpu pobl i gynnal tenantiaethau.

28. Yn ogystal â'r gwaith ataliol gyda chydweithwyr ym mhob rhan o'r Llywodraeth, rydym hefyd yn cydnabod bod angen cefnogi mesurau atal acíwt er mwyn ceisio lleihau'r llif o bobl y mae angen llety dros dro arnynt. Felly, rhoesom £6m ychwanegol o gyllid atal a lleddfu digartrefedd dewisol i awdurdodau lleol yn gynharach eleni, y gellir ei ddefnyddio mewn modd hyblyg, gan gynnwys ar gyfer y rhai nad ydynt yn cael budd-daliadau cysylltiedig â thai. Gellir defnyddio'r cyllid hwn ar gyfer amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys talu ôl-ddyledion rhent, gwarantau rhent, cymorth i dalu biliau domestig eraill a chymorth er mwyn helpu unigolyn i symud ymlaen o lety dros dro.

*Camau gweithredu ategol cyffredinol*

29. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen, o dan adain y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, yn gynharach eleni er mwyn helpu i ddatblygu Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd. Mae fy swyddogion wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu fel rhan o'r broses o

ddatblygu'r fframwaith a bwriedir cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y fframwaith newydd yn gynnar y flwyddyn nesaf.

30. Mae sicrhau bod y rhai â phrofiad uniongyrchol o ddigartrefedd yn gallu llywio pob lefel o'r broses o ddatblygu polisi a bwydo i mewn iddynt yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Rydym yn rhoi cyllid i nifer o sefydliadau er mwyn cefnogi hyn, gan gynnwys Cymorth Cymru, Shelter Cymru ac End Youth Homelessness Cymru.

31. Bydd ein hymrwymiad i ddiwygio deddfwriaeth hefyd yn seiliedig ar brofiadau uniongyrchol o ddigartrefedd. Mae Cymorth Cymru yn cynnal prosiect er mwyn cynnwys arbenigwyr drwy brofiad yng ngwaith y Panel Adolygu Arbenigol, a ategir gan weithgarwch ymgysylltu ychwanegol a gyflawnir gan Tai Pawb er mwyn sicrhau y caiff y ddeddfwriaeth ei datblygu o safbwynt cydraddoldebau, gan fynd i'r afael â'r croestoriadedd rhwng digartrefedd a phrofiad sawl nodwedd warchodedig. Rydym yn gweithio gyda Plant yng Nghymru a'i bartneriaid er mwyn dod â safbwyntiau a phrofiadau plant a phobl ifanc yn uniongyrchol i mewn i'r broses ddatblygu.

**Casgliad**

32. Er fy mod yn llwyr sylweddoli pa mor fawr yw'r her sydd o'n blaenau, rwy'n parhau'n hyderus, os byddwn yn parhau i gydweithio â'n partneriaid, y gallwn gyflawni ein nod hirdymor cyfunol o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

# Eitem 5



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon